HEALTHCARE INSPECTORATE WALES
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Practis Deintyddol Pont-hir (Restore Dental Group)

2 Mawrth 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk



Digital ISBN 978-1-4734-5208-4


ⓗ Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ....................................................................................................2

2. Cyd-destun .....................................................................................................4

3. Crynodeb .......................................................................................................5

4. Canfyddiadau .................................................................................................6

   Ansawdd Profiad y Claf ..................................................................................6

   Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .................................................................9

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........................................................16

5. Y Camau Nesaf .............................................................................................17

6. Methodoleg ....................................................................................................18

   Atodiad A ......................................................................................................20

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Gwnaeth AGIC gwblhau arolygiad ym Mhractis Meddygol Pont-hir, Stokes Court, Pont-hir, NP18 1RY, ar 2 Mawrth 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Pont-hir yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn

monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Pont-hir yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Casnewydd, Gwent. Mae'r practis yn darparu gwasanaethau deintyddol yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Cymerodd 'The Restore Dental Group' berchnogaeth o Bractis Deintyddol Pont-hir, ac mae'n un o dri phractis deintyddol. Mae'r ddau bractis arall yng Nghaerdydd. Mae Practis Deintyddol Pont-hir yn darparu amrywiaeth o driniaethau deintyddol y GIG a thriniaethau deintyddol preifat.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys naw deintydd, dau hylenydd, naw nyrs ddeintyddol, a dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant. Mae rheolwr practis a dau dderbynnydd penodol, yn ogystal â rheolwr gweithredol. Cynhelir y practis mewn adeilad a adeiladwyd i'r pwrpas sydd y drws nesaf i feddygfa a fferyllfa.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Pont-hir yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol o ansawdd uchel ar gyfer cleifion, ac mae'r cleifion yn uchel eu parch tuag ato.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn ymddangos yn hapus yn eu swyddogaethau ac yn deall eu cyfrifoldebau.
- Mae digon o gyfleusterau clinigol ar gael, ac roeddent yn ymddangos yn lân ac yn daclus.
- Ar y cyfan, mae'r cofnodion cleifion o safon uchel.
- Mae trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Asesiadau risg ar gyfer sylweddau peryglus
- Prosesau dadheintio
- Trefniadau ar gyfer diogelu cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys
- Hyfforddiant staff ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed
- Trefniadau ar gyfer archwiliadau sicrhau ansawdd ac adolygiadau gan gymheiriaid.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd drwy holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol dros ben. Roedd gan y practis system ar waith ar gyfer ceisio adborth gan gleifion yn rheolaidd, trwy slip adborth cleifion, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth. Roedd derbynfa a man aros pleserus.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd 22 o holiaduron ac roedd enghreifftiau o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'r practis bob amser yn lân ac mae'r merched ar y ddesg flaen yn gyfeillgar iawn a bob amser yn barod i helpu."*
>
> "Fe ddes i'r feddygfa hon pan oedd yn eithaf newydd. Mae'r deintydd yn dda iawn, ac mae wedi fy helpu i achub fy nannedd a gafodd wasanaeth gosod llenwadau a chorynau gwael. Synnwyr cyffredin yw ei gyngor a dydw i erioed wedi teimlo fy mod wedi cael triniaeth ddiangen. Rydw i wedi gwirioni gyda fy nhriniaeth a'r offer modern a ddefnyddir. Mae'r tîm derbynfa'n hyfryd ac yn gyfeillgar, a dydyn nhw ddim yn gwneud i mi deimlo'n anghyfforddus. Maen nhw hyd yn oed yn chwerthin ar fy jôcs gwirion - bonws!"
>
> *"Cefais fresys wedi'u gosod yn ddiweddar ac rwy'n hapus iawn â'r gwasanaeth a'r gofal a ddarparwyd."*

**<u>Gofal gydag urddas</u>**

Nododd pob un o'r cleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis, a'u bod yn cael croeso mawr gan y staff. Gwelsom hefyd y dull cyfeillgar a phroffesiynol roedd y staff yn ei ddefnyddio tuag at y cleifion. Roedd gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys lle i gleifion gynnal sgyrsiau preifat gyda staff a system i amddiffyn cyfrinachedd wrth ddelio â negeseuon ffôn gan gleifion. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent yn eu derbyn.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent wedi profi oediadau o ran cael eu gweld gan y deintydd. Dywedodd dwy ran o dair o'r cleifion wrthym hefyd eu bod yn gwybod sut i gael gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Roedd arwydd ar ffenestr y practis yn dangos y rhif cyswllt mewn argyfwng. Darparwyd rhifau ffôn cyswllt hefyd ar y daflen wybodaeth i gleifion, ar neges ffôn y practis, ac ar wefan y practis.

## Cadw’n iach

Adeiladwyd y practis i'r pwrpas bum mlynedd yn ôl, ac fel argraff gyntaf, mae'r dderbynfa ac ystafell aros yn ddeniadol, golau ac eang. Roedd y waliau newydd eu peintio, ond prin oedd y dystiolaeth o ddeunydd hyrwyddo iechyd deintyddol o amgylch y derbynfeydd. Dywedodd staff wrthym fod taflenni yn yr ystafelloedd triniaeth yr oedd deintyddion a'r hylenydd yn eu dosbarthu, ond nid oedd rhai yn y mannau cyhoeddus. Mae gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn cynorthwyo wrth gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid sicrhau bod rhagor o wybodaeth hyrwyddo iechyd deintyddol ar gael i gleifion.***

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi derbyn gwybodaeth briodol ynglŷn â'u triniaeth.

## Gofal unigol

Dywedodd y staff wrthym yr atgoffwyd cleifion i roi adborth ar lafar ynglŷn â'u safbwyntiau ar y gwasanaeth, pan oeddent yn mynychu'r practis. Dywedwyd wrthym fod slipiau adborth i gleifion yn cael eu dosbarthu ac y cynhelir adolygiad o'r sylwadau. Dangosodd hyn fod systemau ar waith er mwyn galluogi cleifion i roi adborth parhaus i'r practis.

Pan ofynnwyd i'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron sut oedd gwneud cwyn ynglŷn â'u gofal neu eu triniaeth, gwnaeth dwy ran o dair ohonynt nodi nad oeddent yn gwybod. Nid oedd unrhyw hysbysiad yn y mannau aros ynglŷn â mynegi pryderon, ond roedd gwybodaeth yn y llyfr gwybodaeth i gleifion a'r daflen i gleifion yn y dderbynfa. Gwelsom fod angen diweddaru'r weithdrefn

gwyno i gydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer mynegi pryderon am driniaeth y GIG (a adwaenir fel 'Gweithio i Wella') a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Yn benodol, roedd angen iddi gynnwys yr amserlenni ar gyfer rhoi sylw i bryderon a'r sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw, gan gynnwys AGIC.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid arddangos gwybodaeth ynglŷn â sut y gall cleifion wneud cwyn mewn man gweladwy i gleifion, fel nad oes yn rhaid i gleifion ofyn am y wybodaeth hon.***

***Dylid diweddaru'r weithdrefn gwyno er mwyn cynnwys amserlenni perthnasol ar gyfer ymateb i gwynion a manylion sefydliadau perthnasol eraill y gall cleifion gysylltu â nhw, yn arbennig AGIC.***

Gwelsom fod cwynion yn cael eu rhoi mewn ffeil dan yr enw 'parhaus' neu 'cwblhawyd', a bod pob dogfen ynghlwm. Roedd tystiolaeth bod cwynion ar lafar/anffurfiol hefyd yn cael eu cofnodi ar gyfrifiadur ac yn y ffeil cwynion. Dywedodd staff wrthym fod tueddiadau hefyd yn cael eu dadansoddi ac y cymerwyd camau gweithredu.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer gleifion. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod yr offer pelydr-X yn cael eu defnyddio'n briodol a diogel ac y dilynwyd proses ddadheintio addas. Fodd bynnag, nid oeddem yn fodlon bod trefniadau ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.**

### Gofal diogel

*Cyfleusterau clinigol*

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o gyrraedd y safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roedd y practis a'r ystafelloedd triniaeth yn lân ac yn daclus yn weledol. Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Gwnaethom edrych ar y labordai deintyddol yr oedd y practis yn eu defnyddio, ac nid oeddem yn gallu cadarnhau os oeddent wedi'u cofrestru ag Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd oherwydd nid oedd y rhif cofrestru wedi'i gynnwys yn y gwaith papur.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod pob labordy wedi'i gofrestru â'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.***

Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn drefnus er mwyn helpu'r nyrsys i weithio'n effeithlon. Gwnaethom edrych ar y peiriant sy'n rhoi aer cywasgedig i'r ystafell driniaeth (cywasgydd).Gwelsom fod tystysgrif archwiliad diogelwch gyfredol, ond nid oedd unrhyw gofnod o wneud archwiliadau dyddiol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid cofnodi'r archwiliadau dyddiol ar gyfer y peiriant cywasgu aer.***

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cwblhau ar gyfer yr holl offer trydanol ym mis Chwefror 2015, er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau bach yn ddiogel i'w defnyddio. Dywedwyd wrthym fod y prawf nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 5 Mawrth 2016. Gwelsom fod y dystysgrif cynnal a chadw ar gyfer nwy yn gyfredol hefyd. Roedd offer tân ar gael ac roedd wedi cael ei wirio yn ddiweddar. Roedd arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd mewn argyfwng.

Roedd ffeil ar gael, a oedd yn cynnwys dalenni gwybodaeth yn ymwneud â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, ond ychydig iawn o asesiadau risg oedd ar gael, a oedd yn nodi'r mesurau rheoli presennol i atal anafiadau, ar gyfer y cemegion oedd yn cael eu cadw ar y safle. Dywedodd staff wrthym fod cemegion yn cael eu cadw'n ddiogel y tu ôl i ddrysau dan glo. Fodd bynnag, nid oedd y cwpwrdd cemegion wedi'i gloi ar adeg yr arolygiad.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i asesiadau risg Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd cynhwysfawr fod ar gael ar gyfer yr holl sylweddau sy'n beryglus i iechyd.***

***Dylid cadw'r drws i'r cwpwrdd cemegion ar glo.***

*Offer radiograffeg*

Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (sganiau pelydr-X) yn ddiogel, a bod staff wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol ar ymbelydredd ïoneiddio. Fodd bynnag, gwelsom fod y rheolyddion a'r switshis ynysu mewn argyfwng ar gyfer y peiriant pelydr-X a pelydr-X panoramig yn cael eu gadael ymlaen ar y wal y tu allan i'r ystafell driniaeth. Roedd hyn yn golygu bod risg y gallai person heb awdurdod weithredu'r peiriannau pelydr-X ac y gallai achosi datguddiad anfwriadol i belydr-X.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis gynnal adolygiad o leoliad y switshis ynysu er mwyn sicrhau amddiffyn cleifion a staff rhag datguddiad damweiniol neu anfwriadol i belydr-X.***

Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau diogelwch, o waith cynnal a chadw cyfarpar, ac o gynnal profion. Gwelwyd hefyd rheolau lleol ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ac ynghlwm wrth y drws yn yr ystafelloedd triniaeth. Cadarnhaodd y staff hefyd fod ansawdd y sganiau pelydr-X a gymerwyd yn cael ei ystyried a'i gofnodi bob dydd, ond nid yw'r practis wedi cwblhau archwiliad pelydr-X deintyddol. Mae trefniadau sicrhau ansawdd trylwyr ac archwiliadau radiograffig rheolaidd yn ofynnol dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio a'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod digon o drefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer defnyddio offer radiograffig, gan gynnwys cynnal archwiliadau rheolaidd.***

*Cadw cyffuriau a chyfarpar argyfwng*

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi cael hyfforddiant ar sut i wneud dadebru cardio-pwlmonaidd, ac roedd swyddog cymorth cyntaf dynodedig. Fodd bynnag, nid oedd tystysgrif cymorth cyntaf ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwnaethom argymell y dylai'r practis gadw copïau o'r tystysgrifau hyfforddiant hyn yn y dyfodol.

Roedd yr offer dadebru a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu cadw mewn cwpwrdd ar wahân yn yr ystafell ddadheintio, a byddent ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (llewyg) yn y practis. Fodd bynnag, gwelsom fod y cwpwrdd cymorth cyntaf a oedd yn cynnwys midazolam, sef cyffur rheoledig, heb ei gloi ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom hefyd nad oedd unrhyw lyfr cadw cofnod nac archwiliad dyddiol ar waith i sicrhau nad oedd yr offer a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn mynd heibio eu dyddiad dod i ben, a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis wella'r trefniadau ar gyfer storio cyffuriau a reolir er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel.***

***Dylid rhoi system fwy effeithiol ar waith ar gyfer sicrhau addasrwydd cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn achos brys, gan gynnwys dyddiadau dod i ben.***

*Dadheintio*

Mae gan y practis ardal ddadheintio neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Ar y cyfan, nid oeddem yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer rheoli heintiau, a gwelsom fod angen gwneud gwelliannau i'r broses ddadheintio er mwyn cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-

05[1] (WHTM 01-05).Y rheswm am hyn yw oherwydd i ni ganfod y meysydd canlynol i'w gwella:

- Gwelsom fod rhai offer heb eu selio wedi'u cadw mewn mannau agored yn yr ystafell ddadheintio ac mewn droriau yn yr ystafell driniaeth, a oedd yn golygu nad oeddent wedi'u hamddiffyn yn ddigonol rhag y perygl o halogiad.

- Dywedodd staff wrthym fod unrhyw offer heb eu selio nad oedd wedi'u defnyddio yn cael eu pecynnu ar ddiwedd y dydd. Fodd bynnag, yn unol â chanllawiau WHTM 01-05, dylid ail-sterileiddio'r offer hyn oherwydd y perygl o halogiad tra'u bod heb eu selio.

- Er bod y rhan fwyaf o offer yn cael eu pecynnu a'u dyddio cyn cael eu storio mewn blychau plastig wedi'u selio yn yr ystafell ddadheintio, gwelsom sawl offeryn nad oedd wedi'i ddyddio. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn bosibl canfod pryd oedd cyfnod storio'r offer hyn i fod i ddod i ben.

- Gwelsom nad oedd yr ardal ddadheintio'n ymddangos yn lân. Gwelsom hefyd fod y seliau wedi dod i ffwrdd oddi ar ymyl yr wyneb gweithio yn yr ardal offer budr, a oedd yn golygu y gallai baw a bacteria gronni.

- Nid oedd sinc golchi dwylo penodol ar gael a dywedodd y staff eu bod yn defnyddio hylif dwylo yn hytrach nag ymolchi eu dwylo. Dylid defnyddio hylif dwylo yn ogystal ag ymolchi dwylo'n drylwyr er mwyn rheoli heintiau'n effeithiol.

- Roedd y practis yn cofnodi'r archwiliadau dyddiol ac wythnosol ar gyfer y peiriant sterileiddio er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn aros mewn cyflwr da a bod y broses ddadheintio'n effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y practis ar hyn o bryd yn cofnodi pob archwiliad dyddiol a argymhellir ar gyfer y peiriant sterileiddio, yn unol â chanllawiau WHTM 01-05, gan gynnwys amser, tymheredd, a phwysedd stêm.

[1] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

- Roedd y practis yn cofnodi archwiliadau dyddiol ac wythnosol ar gyfer glanhau offer (uwchsain), ond nid oedd yn cynnwys math o brawf (prawf ffoil) a argymhellir yng nghanllawiau WHTM 01-05.
- Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cael hyfforddiant dadheintio, ond nid oedd cofnodion hyfforddiant dadheintio unigol ar gyfer pob aelod o'r staff ar gael yn y practis. Dywedwyd wrth y practis y dylid cadw copi o dystysgrifau hyfforddiant dadheintio'r staff.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod prosesau dadheintio effeithiol ar gyfer sterileiddio a storio offer deintyddol yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Yn benodol, rhaid i'r practis roi sylw i'r weithdrefn storio offer, glanweithdra'r ardal ddadheintio, hylendid dwylo'r staff, a chynnal archwiliadau rheolaidd ar gyfer yr holl offer a ddefnyddir yn ystod y broses ddadheintio.***

Roedd y practis wedi cwblhau archwiliad rheoli heintiau yn 2015. Roedd cynllun gweithredu ynghlwm i ddangos pa gamau gweithredu a nodwyd. Fodd bynnag, o ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn, roedd angen ail-gynnal archwiliad rheoli heintiau. Cynghorir y practis hefyd i ddefnyddio'r archwiliad rheoli heintiau sy'n cael ei redeg gan adran ôl-raddedig Deoniaeth Cymru, fel yr argymhellir yng nghanllawiau WHTM 01-05.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***O ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn yn ymwneud â'r prosesau dadheintio, dylai'r practis ail-gynnal archwiliad rheoli heintiau a llunio cynllun gwella, gan nodi amserlenni, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau a amlygir.***

*Gwaredu gwastraff*

Roeddem yn gallu gweld bod gan y practis system ar waith ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol a diogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom fod ardal ddiogel y tu allan i'r adeilad i storio gwastraff cyn ei fod yn cael ei gasglu. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y gwastraff wedi'i gasglu ac roedd y cwrt wedi'i adael ar agor.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r cwrt casglu gwastraff fod ar glo bob amser er mwyn atal mynediad heb ganiatâd.***

*Diogelu*

Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith er mwyn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Er i ni weld bod rhai aelodau o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed, nid oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai pob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant diogelu.***

## Gofal effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth o archwiliadau wedi'u cwblhau gan y practis. Roedd y practis wedi cwblhau archwiliad rheoli heintiau, ond nid oedd unrhyw archwiliadau radiograffig nac unrhyw archwiliadau eraill yn cael eu defnyddio yn rhan o'r broses sicrhau ansawdd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau rheolaidd, fel ffordd o gynyddu'r hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.***

Dywedodd y rheolwr practis fod y practis wedi cynnal diwrnod hyfforddi tua 18 mis yn ôl ar ddull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth, ond nid oeddent wedi cynnal hyfforddiant dilynol ers hynny. Gwnaethom argymell y dylai'r practis ystyried gweithredu dull datblygu ymarfer i'w cynorthwyo nhw yn eu gwaith.

## Cofnodion cleifion

Gwelwyd tystiolaeth bod cofnodion cleifion o safon uchel yn gyffredinol, a ddangosodd fod gofal wedi cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, canfuom fod cofnodion cleifion yn cynnwys digon o wybodaeth ynghylch trafodaethau a gynhaliwyd

ynglŷn â dewisiadau o ran triniaethau, ac roedd yr holiaduron cleifion yn cadarnhau hyn. Cafwyd tystiolaeth o gadw cofnodion da o’r gofal a'r driniaeth a gynlluniwyd i gleifion. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y practis yn defnyddio dull addas ar gyfer casglu a diweddaru hanes meddygol cleifion. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i ysmygu neu sgrinio ar gyfer canser y geg. Gwnaethom argymell y dylai’r practis gofnodi hyn.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith yn y practis i gadw copi wrth gefn o gofnodion cleifion er mwyn sicrhau dilyniant o ran gofal. Cedwir y cofnodion papur mewn cypyrddau ffeilio cloadwy mewn ystafell dan glo.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu rolau ac yn gymwys i gyflawni eu cyfrifoldebau.**

Mae'r practis wedi bod yn gweithredu ers sawl blwyddyn, ond cymerodd 'The Restore Dental Group' berchnogaeth ohono yn 2013. Cyfrifoldeb y rheolwr practis yw rheoli'r practis o ddydd i ddydd, ond mae'r rheolwr gweithredol yn ei oruchwylio. Roedd tîm mawr o staff a oedd yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd, ac roeddent yn deall ac yn fodlon ar eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Roedd tîm rheoli'r practis wedi bod yn gweithio'n galed i sefydlu gweithdrefnau er mwyn i'r practis gyrraedd y safon. Dywedodd staff wrthym hefyd eu bod yn cael digon o gefnogaeth a'u bod yn gallu mynd at y rheolwr practis gydag unrhyw bryderon.

Mae'r staff newydd wedi cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a gwelsom dempledi ffolder ar gyfer y broses sefydlu a oedd yn drylwyr iawn. Roedd pob aelod o'r staff yn gallu gweld y polisïau a'r gweithdrefnau, ac mae'r llawlyfr yn nodi bod yn rhaid iddynt sicrhau eu bod yn eu darllen. Cwblheir gwerthusiadau blynyddol a gosodir amcanion. Gwelsom gofnodion cyfarfodydd tîm misol hefyd lle'r oedd y staff yn cael y cyfle i wrando a chymryd rhan. Ymdriniwyd â gwahanol bynciau ac roedd y staff wedi dysgu oddi wrthynt.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd arwyddion y tu allan i'r practis a oedd yn arddangos enwau a chymwysterau'r deintyddion.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau oedd wedi'u sefydlu, a gweld eu bod yn gyfredol. Roedd y staff yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau, a gwelsom dystiolaeth eu bod yn adlewyrchu'r gwir arferion.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a ganfuwyd ym Mhractis Deintyddol Pont-hir yn derbyn sylw, gan gynnwys graddfeydd amser.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Unwaith y cytunir ar y cynllun gwella, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygiad deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) yn ganolog i ddull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A o'r adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

---

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Pont-hir

## Dyddiad yr arolygiad: 2 Mawrth 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 7 | Dylid sicrhau bod rhagor o ddeunydd hyrwyddo iechyd deintyddol ar gael i gleifion yn y derbynfeydd. | Safonau Iechyd a Gofal 1.1, 3.1, 4.1,<br>4.2, 5.1 | | | |
| 7 | Dylid arddangos gwybodaeth ynglŷn â sut y gall cleifion wneud cwyn mewn man gweladwy i gleifion, fel nad oes yn rhaid i gleifion ofyn am y wybodaeth hon.<br>Dylid diweddaru'r weithdrefn gwyno er mwyn cynnwys amserlenni perthnasol ar gyfer ymateb i gwynion a manylion sefydliadau perthnasol eraill y gall | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat<br>2008 | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | cleifion gysylltu â nhw, yn arbennig AGIC. | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 9 | Dylai pob labordy fod wedi'i gofrestru â'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd. | Adran Iechyd Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd | | | |
| 10 | Rhaid i asesiadau risg Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd cynhwysfawr fod ar gael ar gyfer yr holl sylweddau sy'n beryglus i iechyd.<br>Dylid cadw'r drws i'r cwpwrdd cemegion ar glo. | Safonau Iechyd a Gofal<br>2.1 | | | |
| 9 | Dylid cofnodi'r archwiliadau dyddiol ar gyfer y peiriant cywasgu aer. | Rheoliadau Diogelwch Systemau Pwysedd 2000 | | | |
| 10 | Rhaid i'r practis gynnal adolygiad o leoliad y switshis ynysu er mwyn | Rheoliadau Ymbelydredd | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | sicrhau amddiffyn cleifion a staff rhag datguddiad damweiniol neu anfwriadol i belydr-X. | Ïoneiddio 2000<br>RhYÏ(DM) 2000 | | | |
| 10 | Rhaid i'r practis sicrhau bod digon o drefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer defnyddio offer radiograffig, gan gynnwys cynnal archwiliadau rheolaidd. | RhYÏ 1999<br>RhYÏ(DM)<br>2000 | | | |
| 11 | Rhaid i'r practis wella'r trefniadau ar gyfer storio cyffuriau a reolir er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel.<br>Dylid rhoi system fwy effeithiol ar waith ar gyfer sicrhau addasrwydd cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn achos brys, gan gynnwys dyddiadau dod i ben. | Safonau Iechyd a Gofal 2.6 | | | |
| 12 | Rhaid i'r practis sicrhau bod prosesau dadheintio effeithiol ar gyfer sterileiddio a storio offer deintyddol yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Yn benodol, rhaid | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05<br>2.4r, 2.4.jiii, 2.4.jiv, 2.4k | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | i'r practis roi sylw i'r weithdrefn storio offer, glanweithdra'r ardal ddadheintio, hylendid dwylo'r staff, a chynnal archwiliadau rheolaidd ar gyfer yr holl offer a ddefnyddir yn ystod y broses ddadheintio. | 4.18, 4.33, 6.39, 15.6-15. 12 | | | |
| 13 | O ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn yn ymwneud â'r prosesau dadheintio, dylai'r practis ail-gynnal archwiliad rheoli heintiau a llunio cynllun gwella, gan nodi amserlenni, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau a amlygir. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05<br>2.23 | | | |
| 13 | Dylai'r cwrt casglu gwastraff fod ar glo bob amser er mwyn atal mynediad heb ganiatâd. | Rheoliadau Dyletswydd Gofal<br>1991<br>Gwastraff Peryglus Cymru 2005 | | | |
| 13 | Dylai pob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant diogelu. | Safonau Iechyd a Gofal 2.7 | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | CDC 4.3.3, 8.5 | | | |
| 14 | Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau rheolaidd, fel ffordd o gynyddu'r hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir. | Safonau Iechyd a Gofal 3.3 | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | Nid oes angen unrhyw welliannau. | | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** ..........................................................................................

**Teitl:** ..........................................................................................

**Dyddiad:** ..........................................................................................